



5-10 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol

Symud i gerddoriaeth;
Gwrando a dilyn cyfarwyddiadau.

Offerynnau

Nac oes.

Hygyrchedd

Yn addas ar gyfer disgyblion sydd â mân anawsterau dysgu, anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau symud.

Cymhorthion gweledol ac adnoddau eraill

Parasiwt mawr, crysau-t lliw ac ymbaréls lliw bach.

Y gofod sydd ei angen

Bydd angen neuadd ysgol neu ystafell fawr.

1. Gweithgaredd i Gynhesu

Parti Parasiwt

Bydd angen parasiwt ar gyfer y gweithgaredd hwn. Gofynnwch i'r disgyblion eistedd ar y llawr o amgylch y parasiwt.

Arweiniwch y disgyblion i symud y parasiwt mewn gwahanol ffyrdd drwy ddilyn eich cyfarwyddiadau. Er enghraifft, dal gafaél ar ymyl y parasiwt a'i godi a'i ostwng ar yr un pryd, ysgwyd a symud y parasiwt o ochr i ochr.

Arweiniwch y dosbarth mewn 'caneuon parasiwt' – caneuon neu rigymau syml rydych chi'n gwybod sy'n cyfateb yn dda i symud y parasiwt. Peidiwch â phoeni am fod yn ganwr o fri, anogwch y disgyblion i'ch dilyn chi. Er enghraifft, codi a gostwng y parasiwt wrth ganu *Cân yr Enfys a Fuoeh chi 'Rioed yn Morio*.

Dylai Cynorthwywyr Addysgu gefnogi disgyblion i symud y parasiwt.





2. Gwrandewch ar y gerddoriaeth

 10-15 munud

Dywedwch wrth y disgyblion eu bod am wrando ar gân am ffrindiau a phwysigrwydd cydweithio. Yn union fel y gweithgaredd i gynhesu, mae angen i bawb gydweithio i symud y parasiwt.



Gallwch ddangos hyn drwy ofyn i un neu ddau o'r disgyblion symud y parasiwt ar eu pen eu hunain.



Mae'r gân *Golden* a'r geiriau ar gael ar wefan Bring the Noise.

- Chwaraewch y gân gwpl o weithiau i'r disgyblion a'u hannog i'w chanu.
- Gofynnwch i'r disgyblion sefyll a dechrau symud y parasiwt i fyny ac i lawr i'r gerddoriaeth.
- Wrth i'r adran 'La, la', ddechrau, bydd y disgyblion yn symud rownd mewn cylch, gyda'r parasiwt.
- Wrth i'r adran 'Www, www' ddechrau, bydd y disgyblion yn symud gyda'i gilydd tua'r canol, ac yna'n ôl allan.
- Dylid cefnogi disgyblion sydd mewn cadeiriau olwyn, neu sydd ag anawsterau symudedd, i ddefnyddio ymbaréls lliw, tra byddan nhw'n eistedd. Mae modd iddyn nhw eu symud o ochr i ochr, eu troelli, a'u hagor a'u cau.

3. Prif Weithgaredd

Perfformiad

 10 munud

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, byddwch chi angen nifer o grysau-t lliwiau gwahanol. Gadewch i'r disgyblion ddewis pa grys-t maen nhw am ei wisgo. Mae bathodynau neu hetiau hefyd yn gweithio ar gyfer y gweithgaredd hwn.

- Rhannwch y disgyblion yn ddau grŵp – er nid o reidrwydd yn ôl lliw eu crys-t.
- Bydd disgyblion Grŵp 1 yn dal y parasiwt ac yn sefyll mewn cylch yng nghanol y neuadd.
- Bydd disgyblion Grŵp 2 yn defnyddio'r ymbaréls ac yn sefyll neu'n eistedd ar bob ochr i gylch y disgyblion sy'n dal y parasiwt.



- Yn ystod rhan gyntaf y gân, bydd Grŵp 1 yn symud y parasiwt i fyny ac i lawr. Bydd Grŵp 2 yn symud yr ymbaréls agored o ochr i ochr.
- Yn ystod yr adran ‘La, la’, bydd Grŵp 1 yn symud rownd mewn cylch, gyda’r parasiwt. Bydd Grŵp 2 yn troelli’r ymbaréls.
- Yn ystod yr adran ‘Www, www’, bydd Grŵp 1 yn symud gyda’i gilydd i’r canol, ac wedyn allan eto. Bydd Grŵp 2 yn agor ac yn cau eu hymbaréls.
- Daliwch i fynd tan ddiwedd y gân.

Dylai’r perfformiad ddangos lliwiau yn symud o gwmpas, i fyny ac i lawr ac i mewn ac allan.

4. Diwedd y Wers



5-10 munud

Trafodwch â’r disgyblion pa mor bwysig oedd cydweithio i greu perfformiad lliwgar.

Chwaraewch gêm lliwiau, ar sail lliw eu crys-t.



Efallai y bydd y disgyblion eisiau dal ati i ddefnyddio’r parasiwt i chwarae gemau ychwanegol, er enghraifft, ‘Duck, Duck Goose’.

- Rhannwch y disgyblion yn ddau grŵp. Bydd y grwpiau yn sefyll ar ochrau’r neuadd gyferbyn i’w gilydd. Bydd yr athro yn gweiddi lliwiau gwahanol.
- Pan fydd lliw yn cael ei alw, bydd y disgyblion sy’n gwisgo’r lliw hwnnw’n symud ar draws i ochr arall y neuadd.
- Bydd cynorthwywyr addysgu yn cefnogi’r rheini sydd ag anawsterau symudedd.